CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 24 Ebrill, 2017 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch), Mrs D Roberts, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

196 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr J Cotterell, Mr G Harker-Roberts.

197 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Mawrth, 2017.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD

198 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan Aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

199 UN LLAIS CYMRU – PWYLLGOR ARDAL YNYS MON.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod y 19 Ionawr 2017 o Bwyllgor Ardal Ynys Mon a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Llangefni.

200 CYNGOR SIR YNYS MON – HAWLIAU TRAMWY

Cyflwynwyd – gohebiaeth gan Gyngor Sir Ynys Mon yn cyhoeddi ymgynghoriad deng mlynedd, Gwella Hawliau Tramwy. Gwahoddwyd y Cyngor i gwblhau Holiadur arbenig ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

PENDERFYNWYD – i beidio a chwblhau'r Holiadur ar yr achlysur yma.

201 COEDEN NADOLIG BENLLECH.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan gwmni Pritchards, yn datgan na fydd Pochin yn talu costau'r goeden Nadolig ym Menllech o hyn allan oherwydd y wasgfa economaidd. Yn hytrach mae Pochin am wneud rhodd o £200 tuag at y Goeden Nadolig.

202 CYNGOR SIR YNYS MON – PWYLLGOR SAFONAU.

Cyflwynwyd - Nodyn Briffio ar Ddiddordebau Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu. Gofynnwyd i Glercod ddwyn y Nodyn a'r Atodiadau i sylw'r aelodau.

203 CYNGOR SIR YNYS MON – PWYLLGOR SAFONAU.

Derbyniwyd Adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Mon ar Gofrestrau Diddordeb Cynghorau Tref a Chymuned. Gofynnwyd i bob Cyngor sicrhau bod y Cod diweddaraf a'r Nodyn Briffio ar y gofynion statudol ar gyfer aelodau Cynghorau Tref a Chymuned ynghylch datgan diddordebau personol yn cael ei dwyn i sylw eu haelodau yn dilyn etholiadau Mai 2017.

204 GRANTIAU A RHODDION.

Cyflwynwyd – cais am grant gan y canlynol :-

(i) Cylch yr Urdd, Ysgol Gynradd Llanbedrgoch.
(ii) Capel Annibynwyr Libanus, Benllech.

PENDERFYNWYD – ar sail y pwerau a roddwyd yn Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ac oherwydd bod y Cyngor o'r farn fod y gwariant yn unol a gofynion yr Adran, cymeradwyo talu :-

Grant o £150 i Gylch yr Urdd, Ysgol Gynradd Llanbedrgoch.

Grant o £50 i Gapel Annibynwyr Libanus, Benllech.

(Datganodd Ms G M Davies a Mrs W Owen ddiddordeb yng nghais Cylch yr Urdd, Ysgol Gynradd Llanbedrgoch ac nid oeddent yn bresennol yn ystod y trafodaethau na'r pleidleisio ar y mater.)

(Datganodd Mr R O Jones ddiddordeb yng nghais Capel Libanus Benllech ac nid oedd yn bresennol yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater)

BILIAU A CHYFRIFON

205 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
J D Roberts	Archwilio Cyfrifon 15/16	£65-00
Cyngor Sir Ynys Mon	Treth Anomestig Maes Parcio'r Sgwar	£686-13
Grenke	Les y Llungopiwr	£108-65
Gwasanaethau TCC	Ail ran estyniad i'r Traeth	£12016-68
Photostatic	Llungopio	£10-08

206 CYFRIFON.

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) ym Mawrth 2017.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

207 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2016 i ddiwedd mis Mawrth 2017.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

208 CYFRIFON 2016/2017.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – crynodeb o dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor am 2016/2017 yn unol a'r Rheolau Sefydlog. Byddai Cyfrifon mwy manwl yn cael ei cyflwyno i'w cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

209 ASESIAD RISG 2016/2017.

Cyflwynwyd – asesiad risg drafft 2016/2017 i'w gymeradwyo.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r ddogfen fel ac yr oedd.

CYNLLUNIO

210 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1. Caniatau :

30C234A	Bryn Mair Yard, Brynteg.
30C335E	Porthllongdy Farm Caravan Site, Traeth Coch / Red Wharf Bay.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-10 yr hwyr.